

## Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.00 ar 26 TACHWEDD 2018, yn Ystafell Gyfarfod y Ganolfan Ddelweddu.**

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor; Ms Gwerfyl Pierce Jones, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor (tan gofnod 28); Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr); Mr George Ashworth; Mrs Samantha Blackie; Dr Hazel Davey; Ms Anne Davies; Mr Keith Evans; Mr Richard John; Ms Anna Wyn Jones, Llywydd UMCA; y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd; Mr Ian MacEachern; Ms Kath Williams; Yr Athro Robin Williams; Mr Bruce Wight, Llywydd UMAber; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mrs Esther Prytherch, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; a'r Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi).

### 17. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw William Wolfgang Dieneman, cyn Lyfrgellydd.

2. Ffarwelio

Byddai cyfnod Keith Evans ar y Cyngor yn dod ben ar 31 Rhagfyr 2018. Diolchwyd iddo am ei gyfraniad i'r Brifysgol dros y naw mlynedd a hanner diwethaf.

3. Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion

1. Bu Cadeirydd y Cyngor yng nghyfarfod llawn yr hydref o Bwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion, a'r ddau brif destun trafod a gafodd eu hystyried oedd pensiynau ac iechyd meddwl myfyrwyr.

2. Yng ngoleuni'r drafodaeth yn y cyfarfod hwnnw, roedd y Cadeirydd wedi gofyn am adroddiad i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ynglŷn â'r cynllun pensiynau y mae'r brifysgol yn rhan ohono fel cyflogwr. Cafodd copi o'r adroddiad ei roi ar safle SharePoint ar gyfer aelodau'r Cyngor (COU1819-063).

4. Cadeiryddion Prifysgolion Cymru

Bu Cadeirydd y Cyngor hefyd mewn cyfarfod o Gadeiryddion Prifysgolion Cymru (CPC), a ddilynwyd gan gyfarfod rhwng aelodau CPC ac Ysgrifennydd Addysg Cabinet Llywodraeth Cymru. Trafodwyd denu myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil arfaethedig, ac iechyd meddwl myfyrwyr.

5. Digwyddiadau eraill

Ers y cyfarfod diwethaf roedd y Cadeirydd wedi cynrychioli'r corff llywodraethu yn y digwyddiadau canlynol:

1. Dau ddigwyddiad ar 05 Tachwedd 2018 ar ddechrau'r Wythnos Cyflog Byw lle cafodd penderfyniad y Brifysgol i dalu Cyflog Byw gwirioneddol i staff ei gydnabod;
2. Seremoni llofnodi'r dur a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd ar gyfer datblygiad Campws Arloesedd a Menter Aberystwyth;
3. Yr achlysur ar 22 Rhagfyr 2018 i ailagor Theatr y Werin ar ei newydd wedd gan Weinidog Diwylliant, Twristiaeth, a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

6. Sesiynau Gwybodaeth

Cyn y cyfarfod ffurfiol, cafodd sesiynau gwybodaeth eu cynnal i aelodau'r Cyngor ynglŷn ag iechyd a diogelwch, a'r gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr. Byddai copïau fideo o'r sesiynau anffurfiol ar gael trwy safle SharePoint i'r aelodau nad oeddent yn gallu bod yno yn y bore (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

**18. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

NODWYD

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion eraill i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

**19. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2018 (COU1819-031).

**CYNGHORWYD**

Y dylid cadarnhau bod y cofnodion yn gywir, yn amodol ar gywiro gwall camdeipio ym mhennawd cofnod 5 (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

**20. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU1819-032).

NODWYD

Y diweddariadau a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

**21. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1819-033).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor lle'r oedd yr aelodau wedi cymeradwyo materion trwy ohebiaeth.
2. Y materion a gymeradwywyd gan aelodau'r Cyngor trwy ohebiaeth oedd:

1. diwygiadau i Ordinhadau 24 a 25;
2. penodi Richard John yn Gadeirydd y Pwyllgor Diswyddiadau, a'r Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd yn Aelod Annibynnol o'r un Pwyllgor, o 01 Tachwedd 2018; a
3. penodi Dr Emyr Roberts a'r Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd i wasanaethu ar y Pwyllgor Dewis i benodi Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol).

## 22. GOHEBIAETH

### 1. Adolygiad Risg Sefydliadol CCAUC

#### DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn cynnwys llythyr oddi wrth Brif Weithredwr CCAUC, dyddiedig 19 Hydref 2018 (COU1819-034).

#### NODWYD

1. Ar 19 Hydref 2018, anfonodd CCAUC Lythyr Blynyddol Adolygu Risg Sefydliadol ar gyfer 2018 at yr Is-Ganghellor. Roedd y llythyr yn crynhoi canlyniad asesiad yr Adolygiad Risg Sefydliadol diweddaraf o'r Brifysgol a wnaed gan CCAUC, ac yn nodi'r meysydd y dymunai'r Cyngor drafod ymhellach â'r sefydliad yn eu cylch.
2. Roedd y Brifysgol yn awr yn gweithio tuag at ddrafftio diweddariadau ar y materion a godwyd gan y Cyngor Cyllido yn Atodiad B y llythyr. Roedd dau ddiweddariad drafft, a fyddai'n cael eu cyflwyno i'r Cyngor Cyllido erbyn 30 Tachwedd 2018, wedi'u cynnwys yn yr adroddiad cyfansawdd.

#### PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r ddau ddiweddariad drafft yn yr adroddiad cyfansawdd i'w cyflwyno i CCAUC (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).
4. Y dylid drafftio'r diweddariad terfynol a'i gylchredeg i'r Cyngor i'w gymeradwyo trwy ohebiaeth, cyn ei gyflwyno i CCAUC erbyn diwedd Rhagfyr 2018 (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).

## 23. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

#### DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU1819-035); a
2. Argymhelliad gan y Pwyllgor Dewis i benodi Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol) (COU1819-066).

#### NODWYD

3. Roedd pedair prif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; adroddiad ar ddenu myfyrwyr; diweddariad ar faterion iechyd a diogelwch; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau.
4. Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am nifer poblogaeth myfyrwyr amser llawn y Brifysgol ar y dyddiad cyfrifiad 01 Tachwedd 2018, ac felly'n rhoi dull dilys o wneud cymhariaeth â blynyddoedd eraill. Trafododd yr aelodau berfformiad amrywiol adrannau academiaidd, a chroesawyd y cadarnhad bod cynllun newydd ar gyfer marchnata a denu myfyrwyr yn cael ei ddatblygu a fyddai'n cynyddu'r pwyslais ar

ddenu myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru, myfyrwyr Cymraeg eu hiaith, a myfyrwyr rhyngwladol sydd wedi eu lleoli ym Mhrydain.

5. Roedd yr Is-Ganghellor wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd Addysg Cabinet Llywodraeth Cymru yng nghyswllt menter Rhwydwaith Seren, sy'n annog y myfyrwyr chweched dosbarth disgleiriaf i geisio mynediad i'r prifysgolion blaenaf. Roedd y Brifysgol yn awr yn edrych i baratoi achos am gynnwys mwy nag un o Brifysgolion Cymru ar restr y sefydliadau a hyrwyddir trwy'r fenter hon.
6. Bu'r Brifysgol yn llwyddiannus iawn yn ennyn cefnogaeth gan raglen Sêr Cymru Llywodraeth Cymru, a ddatblygwyd i atgyfnerthu gallu ymchwil yng Nghymru. Byddai adroddiad pellach ar y penodiadau newydd a wnaed yn y Brifysgol yn rhan o'r rhaglen hon yn cael ei gynnwys yn rhan o adroddiad manwl ar weithgaredd ymchwil a menter y sefydliad yng nghyfarfod y Cyngor ar 12 Ebrill 2019 (**GWEITHREDU**: Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi)).
7. Yn rhan o'r drefn recriwtio allanol, cafodd Pwyllgor Dewis ei gynnull ar 22 Tachwedd 2018 i gyfweild ymgeiswyr ar y rhestr fer am swydd barhaol Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol). Argymhellodd y Pwyllgor Dewis yn unfrydol y dylid penodi Dr Anwen Jones – a oedd ar hyn o bryd yn cyflawni'r gwaith ar sail dros dro - i'r swydd barhaol.

#### **PENDERFYNWYD**

8. Penodi Dr Anwen Jones yn Ddirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol) am y cyfnod tan 08 Awst 2022, yn unol â'r telerau a nodwyd yn yr adroddiad (**GWEITHREDU**: Pennaeth Dros Dro Adnoddau Dynol).

#### **24. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH**

##### **DERBYNIWYD**

Adroddiad gan Swyddog Datblygu UMAber (COU1819-036).

##### **NODWYD**

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yn Undeb y Myfyrwyr (UMAber) ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.
2. Yn ystod cyfarfod o Senedd yr Undeb ar 22 Hydref 2018, cafodd 'syniad' ei basio, i'r perwyl na fyddai'r Undeb bellach yn ymwneud â'r Ddyletswydd 'Prevent' lle bo hynny'n bosibl o fewn y gyfraith. Yr un modd â phob 'syniad', ni fydd y cynnig yn cael ei wneud yn bolisi Undeb cyflawn tan iddo gael ei basio gan Fwrdd Ymddiriedolwyr yr Undeb. Er bod y Bwrdd Ymddiriedolwyr wedi ystyried y 'syniad' yn ei gyfarfod ar 20 Tachwedd 2018, y bwriad nawr oedd mynd â'r mater i bleidlais o'r holl fyfyrwyr yn y gwanwyn 2019. Ni fyddai polisi UMAber felly yn newid tan cael canlyniad 'pleidlais yr holl fyfyrwyr'.

#### **25. MATERION ARIANNOL**

1. Diweddariad Ariannol

##### **DERBYNIWYD**

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol, Mark Godsell, yn ymgorffori crynodeb o berfformiad ariannol Chwarter Pedwar 2017–18 (COU1819-037).

##### **NODWYD**

1. Rhoddai'r adroddiad ddisgrifiad o berfformiad ariannol y Brifysgol hyd at 31 Gorffennaf 2018, yn ogystal â'r manylion diweddaraf am ddangosyddion perfformiad eraill sy'n gysylltiedig â chyllid.
2. Er bod y Brifysgol wedi cael ei chymeradwyo am greddyd ar gyfer Adnodd Credyd Cylchdroawl yn gynharach yn y flwyddyn, ni chafodd y cytundeb ei gwblhau dros yr haf oherwydd oedi ar ran y benthyciwr. Roedd penawdau'r telerau'n cael eu hadolygu'n awr gan gynrychiolwyr cyfreithiol, yn y gobaith y gellid llofnodi'r cytundeb terfynol cyn gynted â phosibl. Fel y cytunwyd yn flaenorol, byddai copi o'r telerau terfynol ac unrhyw gyfamod yn cael eu cylchredeg i aelodau'r Cyngor er gwybodaeth.

## 2. Y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd

### DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; a'r Cyfarwyddwr Newid Strategol (COU1819-038).

### NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf ynglŷn â'r arbedion a wnaed hyd yn hyn yn achos targedau'r CGC; y ffactorau ariannol yn dylanwadu ar gyflawni o'i gymharu â thargedau; a'r dull lliniaru risg a sefydlwyd.
2. Diolchodd Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth i'r Is-Ganghellor am barhau i'w gynnwys ef yn y prif drafodaethau'n gysylltiedig â chyflenwi'r CGC.

## 26. **CYNLLUN STRATEGOL 2018-2023 DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL**

### DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio Dros Dro (COU1819-039).

### NODWYD

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno pwyntiau data cyfredol yng nghyswllt y 10 Dangosydd Perfformiad Allweddol anariannol y cytunodd y Cyngor arnynt ar 23 Mawrth 2018.

## 27. **ADRODDIADAU DIWEDD BLWYDDYN**

1. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (yn cynnwys Adroddiad Blynyddol a Barn yr Archwilwyr Mewnol)

### DERBYNIWYD

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd am 2017-18, yn ymgorffori Adroddiad a Barn Archwiliad Mewnol yr Archwilwyr Mewnol am 2017-18 (COU819-040).

### NODWYD

1. Cyflwynwyd i'r Cyngor adroddiad ar waith y Pwyllgor AR&S am y flwyddyn 2017-18 (hyd at ei gyfarfod diweddaraf) yn unol â Chod Rheoli Ariannol CCAUC a dogfen 'Higher Education Code of Governance' Pwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion (CUC) .
2. Roedd Deloitte, Archwilwyr Mewnol y Brifysgol, hefyd wedi cytuno ar eu Hadroddiad a Barn Blynyddol. Byddai hwn yn cael ei gyflwyno i CCAUC yn ystod mis Rhagfyr 2018 ynghyd ag adroddiad y Pwyllgor AR&S ei hun.

3. Nid oedd KPMG wedi cwblhau eu harchwiliad allanol o Ddatganiadau Ariannol y Brifysgol ar ddyddiad cyfarfod y Pwyllgor AR&S ar 16 Tachwedd 2018 lle cafodd drafft cynharach o Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ei ystyried. Yn y cyfarfod hwnnw trafodwyd ystyriaethau allweddol a fyddai'n dylanwadu ar gasgliadau'r Archwilwyr Allanol.
4. Ar sail drafft terfynol Memorandwm a Llythyr Rheolaethol yr Archwilwyr Allanol pan gyrhaeddodd, roedd aelodau'r Pwyllgor AR&S wedi cytuno ar fersiwn derfynol o Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor, a roddai sicrwydd i'r Cyngor y gallai ddibynnu ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd dulliau rheoli mewnol y Brifysgol, y systemau rheoli risg, a'r prosesau llywodraethu.

2. Datganiadau Ariannol am 2017-18, gan gynnwys canlyniad yr Archwiliad Allanol

**DERBYNIWYD**

Adroddiad cyfansawdd gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; yn ymgorffori'r Datganiadau Ariannol wedi'u harchwilio am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2018, drafft terfynol Llythyr Rheolaethol a Memorandwm yr Archwilwyr Allanol, a Llythyr Cynrychiolaeth arfaethedig i'r Archwilwyr Allanol (COU1819-041).

**NODWYD**

1. Yn fras, roedd y canlyniadau ariannol gweithredol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2018 yn unol â'r gyllideb mewn diffyg y cytunwyd arni am y flwyddyn, er y byddai gwarged yn cael ei adrodd serch hynny ar ôl cyfrifo am enillion actiwaraidd yng nghyswllt cynlluniau pensiwn.
2. Nid oedd KPMG wedi nodi unrhyw wahaniaethau archwilio yn uwch na lefelau materoliaeth a oddefir yn ystod yr Archwiliad Allanol. Ond cafodd dau argymhelliad blaenoriaeth-ganolig ac un argymhelliad isel ei flaenoriaeth eu codi.
3. Roedd KPMG hefyd wedi gofyn ar i'r Brifysgol gynnwys addasiad blwyddyn-flaenorol yn y Datganiadau Ariannol yng nghyswllt dull trin y cronfeydd gwaddol. Roedd hyn yn dilyn y gwaith a wnaed gan yr Adran Gyllid dros y ddwy flynedd ddiwethaf i nodi'r gwaddolion di-gyfngiad y gellid eu rhyddhau pe bai angen tuag at ddibenion eraill. Er bod y llinell agoriadol o'r flwyddyn ariannol flaenorol wedi ei diwygio yng ngoleuni'r addasiad hwn, roedd y llinell isaf ar gyfer y Datganiadau Ariannol yn aros heb ei newid.
4. Wrth ystyried drafft y Datganiadau Ariannol ar 16 Tachwedd 2018, roedd aelodau'r Pwyllgor AR&S wedi ystyried a fyddai'r Adroddiad Strategol - sy'n nodi perfformiad y sefydliad trwy gydol y flwyddyn ariannol, ei rhagolygon am y dyfodol, a'r prif risgiau ac ansicrwydd pennaf a wynebir - yn rhoi darlun 'teg a chytbwys' o'r prif risgiau a wynebir gan y sefydliad. Yng ngoleuni'r trafodaethau hyn, gwnaed mân ddiwygiadau i eiriad yr Adroddiad Strategol.

**PENDERFYNWYD**

5. Cymeradwyo'r Datganiadau Ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2018 (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).
6. Cymeradwyo'r Llythyr Cynrychiolaeth arfaethedig at yr Archwilwyr Allanol fel y'i drafftiwyd (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

3. Datgeliad Deddf Caethwasiaeth Modern

## DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (COU1819-042).

## NODWYD

1. Yn unol â gofynion Deddf Caethwasiaeth Modern (2015), roedd y Brifysgol wedi drafftio Datganiad Caethwasiaeth Modern a Masnachu Pobl am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2018. Roedd y datganiad drafft yn adeiladu ar y fersiwn a gymeradwywyd ac a gyhoeddwyd y flwyddyn flaenorol, a hefyd yn amlinellu'r camau sy'n cael eu cymryd gan y Brifysgol i gydymffurfio â Chod Ymddygiad Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.
2. Cafodd yr adroddiad drafft ei ystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (LI&Ch) ar 15 Tachwedd 2018, a chan y Pwyllgor Archwilio Risg a Sicrwydd (ARS) ar 16 Tachwedd.

## PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r Datganiad Caethwasiaeth Modern a Masnachu Pobl i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol).
4. Datganiadau Sicrhau Ansawdd

## DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cofrestrydd Cynorthwyol Kim Braddick (COU1819-043).

## NODWYD

1. Mae'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd i Gymru yn rhoi pwyslais ar swyddogaeth cyrff llywodraethu ar gyfer darparu sicrwydd ynglŷn â materion ansawdd a safonau. Rhaid i gyrff llywodraethu gytuno ar Ddatganiad Blynyddol o Sicrwydd Ansawdd a'i gyflwyno i'r Cyngor Cyllido ym mis Rhagfyr 2018.
2. Mae'r adroddiad manwl a baratowyd gan y Gofrestrfa Academaidd wedi'i gynllunio i roi'r dystiolaeth briodol i'r Cyngor ar gyfer cadarnhau wrth y Cyngor Cyllido ei fod yn fodlon bod y Brifysgol wedi cyflawni'i rhwymedigaethau yng nghyswllt cyfres o ddatganiadau ynglŷn â sicrwydd ansawdd, a'i bod yn parhau i wneud hynny.
3. Hwn fyddai'r ail Ddatganiad Blynyddol o Sicrwydd Ansawdd y gwahoddwyd y Cyngor i gytuno yn ei gylch. Fel y cyfryw, roedd yr adroddiad atodol a ddrafftiodwyd gan y Gofrestrfa Academaidd yn llai manwl na fersiwn y llynedd, ac roedd hyn wedi'i gwneud yn angenrheidiol i gael esboniad llawnach o brosesau'r Brifysgol ar gyfer sicrhau ansawdd. Cafodd fersiwn gynharach o'r adroddiad ei hystyried a'i chymeradwyo gan aelodau'r Senedd trwy ohebiaeth.
4. Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth fanwl i'r adroddiad, gan groesawu trefniadau a wnaed i gyflwyno rhagor o sesiynau gwybodaeth anffurfiol i aelodau ynglŷn â threfniadau Dysgu, Addysgu ac Ansawdd Academaidd yn y Brifysgol cyn cyfarfod y Cyngor ar 08 Chwefror 2018.

## PENDERFYNWYD

5. Cymeradwyo cyflwyno'r Datganiadau Blynyddol o Sicrwydd Ansawdd i CCAUC ar sail yr holl sicrwydd a ddarparwyd yn yr adroddiad (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).
  6. Y dylai'r adroddiad atodol a gyflwynir i'r Cyngor y flwyddyn nesaf gynnwys metrigau addas (**GWEITHREDU:** Cofrestrydd Cynorthwyol Kim Braddick).
5. Adroddiad Blynyddol rhaglen 'Prevent'

#### DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a'r Profiad Myfyriwr) a Swyddog Parhad Busnes ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU1819-044).

#### NODWYD

1. O dan Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, rhaid i brifysgolion roi sylw priodol i'r angen i rwystro pobl rhag cael eu denu gan derfysgaeth. Cyfeirir at hyn fel y Ddyletswydd 'Prevent' neu'r ddyletswydd i rwystro.
2. Yng nghyswllt 'Prevent', mae Fframwaith Monitro CCAUC i Ddarparwyr Addysg Uwch yng Nghymru'n cynnwys yr amod i gyflwyno'n ffurfiol Adroddiad Blynyddol, a Ffurflen Ddata.
3. Ystyriwyd drafft yr Adroddiad Blynyddol gan y Pwyllgor LI&Ch ar 15 Tachwedd 2018 lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor ei gymeradwyo. Ond, ers y cyfarfod hwnnw rhoddodd y Cyngor Cyllido wybod i'r Brifysgol y dymunai i rai elfennau'n gysylltiedig â gweithgaredd 'Prevent' am y flwyddyn academaidd gyfredol (2018-19) gael eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol hwn. Byddai drafft yr adroddiad felly'n cael ei ddiwygio'n unol â hynny.

#### PENDERFYNWYD

4. I gytuno ar y tri datganiad safonol a nodir yn yr adroddiad, cymeradwyo drafft cyfredol yr Adroddiad Blynyddol, a dirprwyo awdurdod i Gadeirydd y Cyngor i gytuno ar unrhyw wybodaeth ychwanegol i'w chynnwys yn yr adroddiad yn unol â gofynion CCAUC (**GWEITHREDU:** Swyddog Parhad Busnes ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd).

## 28. YR HEN GOLEG

#### DERBYNIWYD

1. Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (COU1819-045); a
2. Dogfen Amserlen Ddiwygiedig Prosiect yr Hen Goleg (COU1819-067).

#### NODWYD

3. Cynhaliwyd cyfarfod adolygu canol-cyfnod cadarnhaol gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri ar 22 Tachwedd 2018. Roedd y Brifysgol yn awr yn trafod â'r Gronfa ynglŷn â dyddiad cyflwyno cais Cyfnod 2. Ond roedd canlyniad yr arolwg canol-cyfnod yn golygu y gellid yn awr lansio ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r cynigion, a fyddai, ar ôl ei gwblhau, yn rhoi'r Brifysgol mewn sefyllfa i gyflwyno cais cynllunio.
4. Roedd yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth am fersiwn ddiweddaraf cynlluniau cysyniadol yr adnewyddu, yn ogystal ag amcan o'r costau cyfalaf, a oedd wedi'u diwygio i adlewyrchu'r newid i gwmpas y prosiect.



5. Cydnabu'r aelodau, gan fod Cronfa'r Loteri wedi cynnal ei adolygiad porth ei hun o'r prosiect, y byddai'n briodol i'r Brifysgol wneud hynny hefyd. Felly, byddai'r model busnes diweddaraf a chynllun gweithgaredd diwygiedig yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad i'w archwilio (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol). Ond, ni ellid darparu adroddiad ar godi arian cyn cylch yr haf o gyfarfodydd gan fod llwyddiant rhai o'r ceisiadau cyllid sydd eisoes yn yr arfaeth yn dibynnu ar gael y caniatâd cynllunio perthnasol.
6. Awgrymwyd y posibilrwydd o gaffael trydydd parti i gynnal adolygiad porth ar ran y Brifysgol cyn cyflwyno cais Cyfnod 2. Cydnabu'r aelodau y byddai hyn yn briodol, o ystyried maint a gwerth y prosiect, ac y byddai'n llesol cael arolwg allanol o gostau cyfalaf, amcanestyniad referniw a risgiau cysylltiedig.

#### **PENDERFYNWYD**

7. Caffael trydydd parti i gynnal adolygiad annibynnol o brosiect yr Hen Goleg ar ran y Brifysgol, ac y byddai'r canlyniad yn cael ei roi i'r Cyngor cyn i'r sefydliad gytuno i gyflwyno cais Cyfnod 2 i Gronfa'r Loteri (**GWEITHREDU**: Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol).

### **29. DATGANIAD BLYNYDDOL CYFLOGAU**

#### **DERBYNIWYD**

Adroddiad gan Reolwr Metrigau Adnoddau Dynol (COU1819-046).

#### **NODWYD**

1. Yn 2017, roedd Llywodraeth Cymru wedi hysbysu prifysgolion bod disgwyl iddynt gyhoeddi Datganiadau Blynyddol Cyflogau, yn unol ag egwyddorion cyffredin a'r safonau gofynnol a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2015, yng nghyswllt cyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.
2. Roedd y Brifysgol felly wedi datblygu Datganiad Blynyddol Cyflogau, i'w gymeradwyo gan y Cyngor ac yna'i gyhoeddi ar-lein. Cafodd y Datganiad ei ystyried a'i gadarnhau gan y Pwyllgor LI&Ch ar 15 Tachwedd 2018.

#### **PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol Cyflogau i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

### **30. ADRODDIAD BLYNYDDOL GAN Y PWYLLGOR TALIADAU**

#### **DERBYNIWYD**

Adroddiad y Pwyllgor Taliadau am 2017-18, yn ymgorffori drafft y Datganiad Blynyddol ar Daliadau Staff Uwch am flwyddyn academaidd 2017-18 (COU1819-047).

#### **NODWYD**

1. I gydymffurfio â'r 'Cod Taliadau i Staff Uwch Addysg Uwch' newydd, cytunodd y Pwyllgor Taliadau baratoi adroddiad blynyddol i'r corff llywodraethu yn crynhoi'r penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor ar ran y Cyngor, ac i roi sicrwydd i'r corff bod y Pwyllgor yn cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol. Byddai crynodeb o'r adroddiad hefyd yn cael ei wneud yn gyhoeddus yn rhan o'r Datganiad Blynyddol ar Daliadau Staff Uwch.

## **PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol arfaethedig ar Daliadau Staff Uwch am 2017-18 i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

### **31. GWAREDU ASEDAU NAD OES EU HANGEN**

#### DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Ystadau, Adnoddau a Llety (COU1819-048).

#### NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad y manylion diweddaraf ynglŷn â gwaredu'r asedau tir ac adeiladau a gytunwyd gan y Cyngor ar 23 Mehefin 2017, a chynigiai y dylid cael gwared â thri ased pellach y nodwyd ers hynny nad oedd eu hangen ar gyfer datblygiadau strategol yn y dyfodol.
2. Pwysleisiwyd gwerth cofrestru tir sy'n eiddo i PA gyda'r Gofrestrfa Tir, a chydnabuwyd y byddai cofrestru tiroedd y Brifysgol yn wirfoddol yn hwyluso'r broses o werthu asedau tir yn y dyfodol a diogelu rhag perygl mediant gwrthgefn.

## **PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo gwaredu tri ased ychwanegol fel y nodwyd yn yr adroddiad (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Ystadau, Adnoddau a Llety).
4. Y dylai'r Brifysgol nodi unrhyw asedau tir heb eu cofrestru sydd ganddi a'u cofrestru'n ffurfiol gyda'r Gofrestrfa Tir (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Ystadau, Adnoddau a Llety).

### **32. Y DDOGFEN CYNLLUNIO STRATEGOL AC YMGYSYLLTU**

#### DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bennaeth Datblygu Strategol (COU1819-049).

#### NODWYD

1. Roedd CCAUC wedi gofyn i brifysgolion gyflwyno diweddariadau ynghylch y targedau y cytunodd pob sefydliad iddynt yn y Ddogfen Cynllunio Strategol ac Ymgysylltu am 2017-18, a chawsant eu cyflwyno ym mis Ionawr 2018. Roedd yr adroddiad yn cyflwyno ymateb arfaethedig i'w anfon i'r Cyngor Cyllido.

## **PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo'r cyflwyniad arfaethedig i CCAUC, yn amodol ar gywiro gwallau teipio (**GWEITHREDU:** Pennaeth Datblygu Strategol).

### **33. PENODI DIRPRWY-GANGHELLOR/GANGELLORION**

#### DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1819-050).

#### NODWYD

1. Ar hyn o bryd, mae gan Brifysgol Aberystwyth un Dirprwy Ganghellor, Gwerfyl Pierce Jones, a fydd yn dod i ddiwedd ei chyfnod ar 31 Rhagfyr 2019. Roedd y Canghellor, yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd, wedi gofyn am sefydlu trefn addas i benodi un Dirprwy

Ganghellor neu fwy, yn ategol ac yn y pen draw i wasanaethu yn lle Gwerfyl Pierce Jones.

2. Nodai'r adroddiad y prif ystyriaethau ac amserlen arfaethedig ar gyfer cynnal trefn addas. Ystyriwyd yr adroddiad hwn gan y Pwyllgor LI&Ch ar 15 Tachwedd 2018, lle cafodd yr amserlen arfaethedig ei chefnogi ac argymhellwyd penodi aelodau i'r Pwyllgor Dewis angenrheidiol.

#### **PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r amserlen arfaethedig a'r aelodau a gynigiwyd i wasanaethau ar y Pwyllgor Dewis (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).
4. Yn ogystal â Chadeirydd y Cyngor a'r Is-Ganghellor, y dylai'r aelodau canlynol wasanaethau ar y Pwyllgor Dewis: Samantha Blackie, Dr Hazel Davey, Richard John, a Bruce Wight (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

### **34. GRADDAU ER ANRHYDEDD**

#### DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1819-051).

#### NODWYD

1. Ar 22 Hydref 2018, cyfarfu'r Grŵp Graddau er Anrhydedd i ystyried enwebiadau am Raddau er Anrhydedd PA. Amlinellai'r adroddiad argymhellion y Grŵp ynglŷn â dyfarnu Graddau er Anrhydedd.
2. Ystyriwyd argymhellion y Grŵp gan y Pwyllgor LI&Ch ar 15 Tachwedd 2018, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylai'r Is-Ganghellor gael elfen o ryddid i benderfynu ynglŷn â phwy i'w gwahodd i dderbyn Gradd er Anrhydedd yn 2019, a phwy y gellid eu dal yn ôl tan 2020. Roedd y Senedd hefyd wedi cefnogi'r enwebiadau yn y cyfarfod ar 14 Tachwedd 2018.

#### **PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r enwebiadau a gynigiwyd am Raddau er Anrhydedd, a chytuno y dylai'r Is-Ganghellor benderfynu pryd y byddai orau i roddi pob un (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

### **35. Y POLISI GWRTH LWGRWOBWRWYO**

#### DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, yn ymgorffori Polisi Gwrth Lwgrwobrwyo arfaethedig (COU1819-052).

#### NODWYD

1. Cafodd y polisi gwrth lwgrwobrwyo ei ddiwygio gan y Cyngor ar 06 Rhagfyr 2013. Gwnaed arolwg manwl o'r Polisi hwn, ac roedd nifer o ddiwygiadau'n cael eu hargymell.
2. Cafodd y newidiadau arfaethedig eu hystyried gan y Pwyllgorau LI&Ch ac ARS ar 15 ac 16 Tachwedd 2018 yn y drefn honno, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylai'r Cyngor eu cymeradwyo.

#### **PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r Polisi Gwrth Lwgrwobrwyo diwygiedig (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

### 36. POLISI GWRTH DWYLL A CHAMARFER

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn ymgorffori diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Gwrth Dwyll a Chamarfer (COU1819-053).

NODWYD

1. Er bod polisi Gwrth Lwgrwobrwyo a Chamarfer cyfredol y Brifysgol wedi'i ddiwygio gan y Cyngor ar 23 Mawrth 2018, roedd newidiadau i fframwaith y Brifysgol - yng nghyswllt pwyllgorau a'r Weithrediaeth - yn golygu bod angen newidiadau canlyniadol pellach.
2. Cafodd y newidiadau arfaethedig eu hystyried gan y Pwyllgor LI&Ch ar 15 Tachwedd 2018, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylai'r Cyngor eu cymeradwyo, yn amodol ar rai mân newidiadau. Cafodd y newidiadau arfaethedig eu cymeradwyo hefyd gan y Pwyllgor ARS ar 16 Tachwedd 2018.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r Polisi Gwrth Dwyll a Chamarfer diwygiedig (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

### 37. MAGNA CHARTA UNIVERSITATUM

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1819-054).

NODWYD

1. Yn ystod mis Mai 2018, roedd Arsyllfa Magna Carta wedi cysylltu â'r Is-Ganghellor, ac wedi annog y Brifysgol i ymuno â'r *Magna Charta Universitatum*.
2. Mae'r Magna Charta Universitatum - a lofnodwyd yn wreiddiol gan 388 o brifathrawon a phenaethiaid prifysgolion o bob rhan o Ewrop a thu hwnt ar 18 Medi 1215 - yn cynnwys egwyddorion rhyddid academiaidd ac annibyniaeth sefydliadol fel canllaw ar gyfer llywodraethu da a hunan-adnabyddiaeth prifysgolion y dyfodol.
3. Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Senedd ar 10 Hydref 2018, lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Brifysgol ymuno â'r *Magna Charta Universitatum*.

**PENDERFYNWYD**

4. Y dylai'r Brifysgol ymuno â'r *Magna Charta Universitatum* (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

### 38. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd yr aelodau adroddiad ynglŷn â'r canlynol er gwybodaeth:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU1819-055); a
2. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU1819-056).

NODWYD

3. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

### 39. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys y canlynol (COU1819-057):

1. Y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd (28 Medi, ac 16 Tachwedd 2018);
2. Y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (04 Hydref, a 15 Tachwedd 2018);
3. Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (04 Hydref, a 15 Tachwedd 2018);
4. Y Senedd (10 Hydref, a 14 Tachwedd 2018);
5. Y Pwyllgor Buddsoddiadau (05 Tachwedd 2018); a
6. Y Pwyllgor Taliadau (04 Hydref 2018).

NODWYD

#### 7. Y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (04 Hydref 2018)

1. Cymeradwyodd y Pwyllgor ddull o gynnal arolwg o effeithiolrwydd llywodraethu'r Brifysgol, y byddai'n rhaid i'r sefydliad ei gynnal erbyn diwedd blwyddyn academaidd 2018-19 yn unol â'r *Cod Llywodraethu Addysg Uwch*.
  2. Cafodd trefn gaffael ei dilyn i gyflogi gwasanaeth unigolyn neu gwmni allanol â'r profiad perthnasol ym maes llywodraethu addysg uwch. Penodwyd 'AdvanceHE' i weithio gyda'r Brifysgol ar yr adolygiad o effeithiolrwydd llywodraethu.
  3. Byddai rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r adolygiad o effeithiolrwydd llywodraethu, gan gynnwys sut y bydd aelodau'n cyfrannu at y drefn, yn cael ei chylchredeg maes o law (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).
8. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r is-bwyllgorau eraill.